# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 30 Mehefin 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12320

## 11(v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 7 ac 8 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.20

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.12 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Dirprwy Lywydd.**

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.21

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.46

Gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd:

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi dadfeddiannu Llywodraeth Cymru?

Gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg:

Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru): Yn sgil sylwadau a wnaed gan y Gweinidog mewn sesiwn friffio i'r wasg ar y coronafeirws ddydd Llun, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru i weithredu eu rheolau diogelwch COVID-19 eu hunain yn y tymor nesaf?

## 5 Datganiadau 90 eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.06

Gwnaeth Vikki Howells (Cwm Cynon) ddatganiad am: Cofio trychineb Glofa'r Albion.

Gwnaeth Sioned Williams (Gorllewin De Cymru) ddatganiad am: Tennis Castell-nedd - cydnabyddir gan wobrau blynyddol y Gymdeithas Tennis Lawnt fel un o'r Prosiectau Tennis Cymunedol gorau yn y DU.

Gwnaeth Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru) ddatganiad am: Capel Bryn Seion yn Ystrad Mynach - bydd yn cau a chynhelir ei wasanaeth olaf ddydd Sul.

## Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**NDM7746** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

1. Rhianon Passmore (Llafur Cymru), Alun Davies (Llafur Cymru), a Peter Fox (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod: Bil ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn

Dechreuodd yr eitem am 16.11

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7713** Gareth Davies (Dyffryn Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth ddatblygu, cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru;

b) ymestyn y ddyletswydd sylw dyledus i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru;

c) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ymhlith pobl hŷn ac awdurdodau cyhoeddus Cymru;

d) ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, pobl hŷn a rhanddeiliaid perthnasol eraill cyn gwneud neu ddiwygio'r cynllun hawliau pobl hŷn; ac

e) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus Cymru.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn *(Saesneg yn unig)*

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 17 | 7 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 16.31 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Dirprwy Lywydd.**

## 7 Dadl Plaid Cymru: Hinsawdd a bioamrywiaeth

Dechreuodd yr eitem am 16.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7725** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi datganiad y Senedd o argyfwng hinsawdd yn 2019.

2. Yn nodi y bydd 15fed cyfarfod Cynhadledd y Partïon (COP15) i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn cyfarfod yr hydref hwn i gytuno ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang.

3. Yn credu y dylid sicrhau cydraddoldeb rhwng y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r rhai a gymerir i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth.

4. Yn cydnabod yr angen i gau'r bwlch llywodraethu amgylcheddol a grëwyd drwy adael yr UE.

5. Yn datgan argyfwng natur.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno gofyniad sy'n rhwymo mewn cyfraith i wrthdroi colli bioamrywiaeth drwy dargedau statudol;

b) deddfu i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 13 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.43 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 17.48

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.50

**NDM7743** James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Effaith rheoliadau ffosffad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.09

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Gorffennaf 2021**